

ATODLEN

Erthygl 2

YR ARDAL BENODEDIG

1. Yn ddarostyngedig i baragraff 2, yr ardal benodedig yw'r gyfran o'r môr sydd o fewn chwe milltir forol i'r gwaelodlinau yng Nghymru ac o fewn y terfynau canlynol—

- (a) yn y gogledd, llinell a dynnir rhwng y cyfesurynnau yn aber Afon Dyfrdwy, a bennir yn Atodlen 3 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999(1); a
- (b) yn y de, llinell a dynnir i'r gogledd-orllewin cywir o eithafbwynt gogleddol Trwyn Cemaes yn sir Ceredigion.

2. Nid yw'r ardal benodedig yn ymestyn uwchlaw llinell a dynnir yng ngheg neu gerllaw ceg pob afon neu ffrwd sy'n llifo i'r môr neu i unrhyw aber, neu geg yr aberoedd, o fewn terfynau'r ardal benodedig fel a ganlyn—

- (a) llinell a dynnir ar draws afon Dyfrdwy (Dee) o Drwyn Hilbre i eithafbwynt gogledd-orllewinol Ynys Hilbre ym Mwrdeistref Fetropolitanidd Cilgwri, ac oddi yno at y goleudy nas defnyddir mwyach yn y Parlwr Du yn Sir y Fflint;
- (b) llinell a dynnir ar draws afon Clwyd ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A548 yn y Rhyl;
- (c) llinellau a dynnir ar draws afonydd Conwy ac Abergwyngregyn, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r pontydd rheilffordd dros yr afonydd hynny, ger Conwy ac Abergwyngregyn yn eu trefn;
- (ch) llinell a dynnir ar draws afon Seiont ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A487 yng Nghaernarfon;
- (d) llinell a dynnir ar draws ceg Bae'r Foryd (afon Gwyrfa) o Dŷ Calch at y polyn fflag yn Fort Belan;
- (dd) llinell a dynnir ar draws afon Cefni, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A4080 ym Malltraeth;
- (e) llinell a dynnir ar draws afon Soch ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A499 yn Abersoch;
- (f) llinell a dynnir ar draws afon Erch, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o bont y rheilffordd yn Harbwr Pwllheli;
- (ff) llinell a dynnir ar draws afon Rhyd-hir, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario Ffordd-y-Còb ar ochr orllewinol Harbwr Pwllheli;
- (g) llinell a dynnir ar draws afon Glaslyn, ar hyd ochr y môr i'r còb ger Porthmadog;
- (ng) llinellau a dynnir ar draws afonydd Dwryd ac Artro, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r pontydd rheilffordd dros yr afonydd hynny, ger Gorsafoedd Llandecwyn a Llanbedr a Phen-sarn, yn eu trefn.
- (h) llinellau a dynnir ar draws afonydd Ysgethin a Dysynni, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r pontydd rheilffordd dros yr afonydd hynny, ger Tal-y-bont a Thonfannau, yn eu trefn;
- (i) llinell a dynnir ar draws afon Mawddach, o'r pwynt ar ei glan ogleddol lle mae ffrwd Cwm-llechen yn ymuno â hi ger y Bont-ddu, hyd at y pwynt ar y lan ddeheuol lle mae ffrwd Gwynant yn ymuno â hi;
- (j) llinell a dynnir ar draws afon Dyfi, o'r trwyn yn Nhrefri at ategwaith de-orllewinol pont y rheilffordd ar draws ffrwd Tre'r-ddôl (afon Cletwr);

(1) O.S. 1999/672.

Statws This is the original version (as it was originally made).

- (l) llinell a dynnir ar draws afon Aeron, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A487 yn Aberaeron;
- (ll) llinell a dynnir ar draws afon Teifi, ar hyd yr ochr sy'n wynebu'r môr o'r bont sy'n cario ffordd yr A487 yn Aberteifi; ac
- (m) llinell a dynnir ar draws pob afon neu ffrwd nas enwir uchod, a'r llinell honno'n barhad o'r arfordir ar benllanw cymedrig y gorllanw.